# Y CYNGOR 21/06/12

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Selwyn Griffiths (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Stephen Churchman, Endaf Cooke, Anwen Davies, Lesley Day, Eddie Dogan, David G. Edwards, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Trevor Edwards, T.G. Ellis, Alan Jones Evans, Aled Ll. Evans, Jean Forsyth, Gweno Glyn, Simon Glyn, Gwen Griffith, Alwyn Gruffydd, Sian Gwenllian, Annwen Hughes, John B. Hughes, Louise Hughes, Jason Humphreys, Peredur Jenkins, Anne Ll. Jones, Brian Jones, Charles W. Jones, Elin Walker Jones, Eric M. Jones, John W. Jones, Linda W. Jones, Llywarch Bowen Jones, Sion W. Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Christopher James O'Neal, Dewi Owen, W.Tudor Owen, Nigel Pickavance, Peter Read, Caerwyn Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, W. Gareth Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Paul Thomas, Eirwyn Williams, Elfed W. Williams, Gethin G. Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams, John W. Williams, Owain Williams, R.H. Wyn Williams, Mandy Williams-Davies, Robert J. Wright, Eurig Wyn

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dilwyn O Williams, Dafydd Lewis ac Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Gwen Carrington (Pennaeth Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Vera Jones (Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democrataidd), Marian Parry Hughes (Uwch Reolwr Gwasanaethau Plant), Ann Lloyd Jones (Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Aled Evans (Uwch Swyddog Rheoli Perfformiad a Newid) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Craig ab Iago, Huw Edwards, Chris Hughes, Aeron Jones, Dyfrig W. Jones, Michael Sol Owen, W.Roy Owen, Ann Williams

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd John Wynn Jones.

## 1. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 17 Mai 2012 gyda'r cywiriad canlynol –
<u>Cofnod 8 – Y Cyfansoddiad</u>
Cywiro cymal (vii) i ddarllen "Gofynnodd aelod sut y byddai'n bosibl iddi gyflawni ei rôl fel cynghorydd yn effeithiol os na fyddai'n bosibl iddi ddod â materion gerbron y Cyngor Llawn"

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

i) Tynnwyd sylw gan y Swyddog Monitro at yr eitem "Atebolrwydd Tâl o fewn Llywodraeth Leol yng Nghymru" sy'n effeithio ar y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Penaethiaid Adran. Awgrymodd bod y swyddogion hyn a oedd yn bresennol yn datgan y buddiant ac yn ymneilltuo o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem. Fodd bynnag, byddai'n ofynnol i'r Prif Weithredwr aros yn y cyfarfod i ateb unrhyw gwestiynau ar yr adroddiad.

ii) Datganodd y Prif Weithredwr, y tri Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Penaethiaid Democratiaeth a Chyfreithiol, Cyllid, Strategol a Gwella a Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol fuddiant personol yn yr eitem "Atebolrwydd Tâl o fewn Llywodraeth Leol yng Nghymru" gan bod yr adroddiad yn ymwneud â'u cyflogau.

'Roeddynt o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem (ac eithrio'r Prif Weithredwr oedd yn cyflwyno'r eitem).

## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

i) Croesawyd y Cynghorydd Beth Lawton, aelod tros ward Bryncrug a Llanfihangel i'w chyfarfod cyntaf o'r Cyngor yn dilyn ei llwyddiant yn yr is-etholiad yr wythnos ddiwethaf.

ii) Anfonwyd cofion at Is-gadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Huw Edwards yn dilyn ei anhwylder diweddar.

Diolchodd y Cadeirydd am y dymuniadau da a dderbyniodd yn dilyn ei anffawd diweddar.

iii) Llongyfarchwyd pawb a fu'n ymwneud ag Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Eryri er sicrhau eisteddfod lwyddiannus gan longyfarch hefyd yr holl gystadleuwyr o Wynedd a gymerodd ran yn yr eisteddfod.

Llongyfarchwyd hefyd Mr Sion Wyn Jones, Pennaeth Adran Hanes, Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon ar ennill cystadleuaeth Athro Uwchradd y Flwyddyn yng Nghymru gan ddymuno'n dda iddo yn y cam nesaf o'r gystadleuaeth.

iv) Cyfeiriwyd at y rali a gynhelir ym Mhwllheli, dydd Sadwrn 23 Mehefin parthed bwriad Llywodraeth Cymru i greu Parthau Cadwraeth Morol o amgylch arfordir Gwynedd.

v) Diolchwyd i'r Cyngor am yr holl drefniadau yn ymwneud â'r Fflam Olympaidd pan ymwelodd â rhannau o Wynedd y mis diwethaf.

**4. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

Adroddwyd y derbyniwyd ymatebion i'r llythyr a anfonwyd at Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Cyngor Iechyd Cymuned parthed eu cyfundrefnau ymgynghori a chyfathrebu.

**5. MATERION BRYS**

Cytunodd y Cadeirydd dan Adran 100B (4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972, i gynnwys y rhybudd o gynnig ynglŷn ag aelodaeth o'r Awdurdodau Lleol Di-niwclear oherwydd bod angen gweithredu'n ddiymdroi a hefyd rhybudd o gwestiwn gan bod angen ateb buan.

**6. CWESTIWN**

Cwestiwn y Cynghorydd Gwynfor Edwards.

*"Yn dilyn y sylw diweddar i'r Gorchymyn Gwasgaru yng nghanol Bangor, a fyddai'n bosibl i'r aelod Cabinet perthnasol hysbysu'r Cyngor pa ymgynghoriad a gymerodd le cyn cyhoeddi'r gorchymyn a'r sefyllfa presennol ynglyn â'i weithredu"*

Ateb y Cynghorydd John W. Williams, Aelod Cabinet Cynllunio

"'Rwy'n falch o'r cyfle i gael ateb y cwestiwn hwn gan ei fod yn rhoddi cyfle i mi gywiro rhai camargraffiadau diweddar. Yn gyntaf, o ran beth yw'r gorchymyn, hoffwn ddyfynnu o'r Nodyn Cyngor ynglyn â'r drefn sydd yn dweud "*It is not a curfew and the power to disperse groups can only be used when anti-social behaviour is committed.*"

Y pwynt ar hwn yw mai diben y Gorchymyn yw cefnogi'r heddlu i ddelio ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol er mwyn i'r mwyafrif fedru mynd o gwmpas eu gwaith a hamdden i fwynhau yng nghanol dinas Bangor heb ymyrraeth ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

Yr hyn sy'n digwydd mewn achosion o'r fath yw bod yr heddlu'n dweud eu bod yn dymuno cyhoeddi gorchymyn ond yn gorfod cael cytundeb y Cyngor cyn gwneud hynny. Yn ôl Cyfansoddiad y Cyngor, mae'r hawl i gytuno i hynny wedi ei ddirprwyo i'r Pennaeth Strategol a Gwella. O ran ymgynghori, yr hyn a ddigwyddodd yn yr achos hwn yw bod yr heddlu wedi cyflwyno tystiolaeth o gwynion am ymddygiad gwrth-gymdeithasol a bygythiol i'r pennaeth a'i fod wedi cytuno yn amodol ar –
a) Gyswllt priodol gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol os yw gweithredu'r gorchymyn yn effeithio ar blant.
b) Y dylai'r swyddogion heddlu sy'n gweithredu'r gorchymyn gymryd gofal o les unrhyw berson ifanc sy'n cael ei symud o'r ardal.
c) Y dylid adolygu'r gorchymyn yn y cyfarfodydd rheolaidd sy'n digwydd rhwng y partneriaid. Mae'r cyfarfodydd hyn yn digwydd bob chwe wythnos ac mae'r cyfarfod cyntaf yr wythnos nesaf.

Byddaf yn sicrhau bod yr aelodau lleol yn derbyn gwybodaeth am yr adolygiadau chwe wythnos fel eu bod yn medru cynnig sylwadau ar yr angen i barhau â'r gorchymyn neu beidio"

**7. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ar adolygu cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.

Adroddwyd –

a) Y cynhaliwyd is-etholiad yn Ward Bryncrug/Llanfihangel ar 14 Mehefin 2012 pryd yr etholwyd y Cynghorydd Beth Lawton, aelod o'r Grŵp Annibynnol, ar y Cyngor.

b) Yr ystyriwyd y newid yn y cydbwysedd gwleidyddol gan Grŵp Busnes y Cyngor ar 19 Mehefin 2012 a olygai bod y Grŵp Annibynnol yn ennill dwy sedd, sef un ar y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau a'r llall ar y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar draul y Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol sy'n colli sedd ar y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth. Golygai hefyd bod Grŵp Llais Gwynedd yn ennill sedd ar y Pwyllgor Trwyddedu Canolog a bod Grŵp Plaid Cymru'n ennill sedd ar y Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig.

Adroddodd Arweinydd y Cyngor bod Grŵp Plaid Cymru wedi cytuno i golli sedd ar y Pwyllgor Cynllunio ac ennill sedd ar y Pwyllgor Apelau Cyflogaeth tra bod y Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol yn ennill sedd ar y Pwyllgor Cynllunio ac yn colli sedd ar y Pwyllgor Apelau Cyflogaeth.

Tynnwyd sylw gan aelod o'r Grŵp Annibynnol mai tair sedd oedd gan y grŵp ar y Pwyllgor Cynllunio o'i gymharu â phedair sedd ar rhai o'r pwyllgorau eraill.

Hysbysodd Arweinydd y Cyngor na chodwyd y mater hwn gan Arweinydd y Grŵp Annibynnol yn y Grŵp Busnes ar 19 Mehefin 2012.

Mewn ymateb, hysbysodd y Swyddog Monitro na wneir y dyraniad ar bob pwyllgor yn unigol ond yn hytrach ar y cyfanswm. Yn achos y Grŵp Annibynnol a gan nad yw'r Pwyllgor Cynllunio yn cael ei gymryd fel pwyllgor ar wahân nododd bod pump o'r pwyllgorau gyda 15 aelod a bod hawl gan y Grŵp Annibynnol i bedair sedd ar bedwar ohonynt a thair sedd ar bwyllgor arall. Os mai dymuniad y grŵp yw cael pedair sedd ar y Pwyllgor Cynllunio yna byddai'n ofynnol iddynt ildio sedd ar bwyllgor arall.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Nodi bod Cyfansoddiad presennol y Cyngor fel a ganlyn:-**

| | |
|---|---|
| **Plaid Cymru** | **37** |
| **Annibynnol** | **18** |
| **Llais Gwynedd** | **14** |
| **Llafur** | **4** |
| **Democratiaid Rhyddfrydol** | **2** |

**(ii) Mabwysiadu dyraniad seddau ar bwyllgorau'r Cyngor yn unol â'r tabl isod -**

**PWYLLGORAU CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol |
|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | 9 | 4 | 3 | 1 | 1 |
| Cymunedau | 9 | 4 | 3 | 1 | 1 |
| Gwasanaethau | 9 | 5 | 3 | 1 | |
| Archwilio | 9 | 4 | 4 | 1 | |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democratiaeth | 7 | 4 | 3 | 1 | | |
| Cynllunio | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 | |
| Trwyddedu Canolog | 7 | 4 | 4 | | | |
| Iaith | 8 | 4 | 3 | | | |
| Penodi Prif Swyddogion | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 | |
| Apelau Cyflogaeth | 4 | 1 | 1 | 1 | | |
| Nifer y seddau | 76 | 37 | 29 | 8 | 4 | 154 |

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol |
|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 3 | 2 | 1 | | 1 |
| CYSAG | 3 | 2 | 2 | | |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 6 | 2 | 2 | 1 | |
| Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig | 4 | 2 | 1 | | |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | 4 (3 sedd ac un eilydd) | 2 | 1 | 1 | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Seddau** | **96** | **47** | **36** | **10** | **5** | **194** |

**(iii) Dirprwyo'r hawl i'r Swyddog Monitro wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol.**

**8. PENODIADAU I'R PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro ar benodi aelodau ar Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd.

Adroddwyd bod cyfanswm o naw aelod ar y pwyllgor sef pump aelod annibynnol, un aelod pwyllgor cymunedol a tri aelod etholedig Cyngor Gwynedd.

Yn dilyn penderfyniad y Cyngor ar 1 Mawrth 2012 ar y drefn penodi, hysbysebwyd yn y wasg, ddwy sedd wag ar gyfer aelod annibynnol a derbyniwyd tri ymateb gan bersonau oedd yn cyfarfod â'r meini prawf ac yn gymwys i'w penodi. Sefydlwyd panel ymgynghorol i ystyried y ceisiadau a chyfweld yr ymgeiswyr a chynhaliwyd cyfarfod ohono ar 19 Mehefin 2012 er cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor.

Nododd yr ysgrifennwyd at holl aelodau'r Cyngor yn gwahodd mynegiant o ddiddordeb i wasanaethu ar y pwyllgor a chyflwynwyd enwau'r rhai sydd â diddordeb i gyfarfod o'r Grŵp Busnes a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2012 er cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor.

Daeth tymor yr aelod pwyllgor cymunedol, sef Ashley Michael David Clay, i ben gyda'r etholiadau ym mis Mai 2012, ond mae'n gymwys i'w ailbenodi. Ymgynghorwyd ar y bwriad gyda'r cynghorau cymuned drwy Unllais Cymru a chafwyd cymeradwyaeth i'r ailbenodiad. Oherwydd ei gyfraniad i'r pwyllgor, profiad yn y gwaith a'r ffaith y bydd hanner aelodau'r pwyllgor yn rhai newydd, argymhellodd y dylid ailbenodi David Clay am dymor pellach.

Nododd y rheoliadau bod tymor cynghorwyr ar y pwyllgor i fod naill ai yn bedair blynedd neu hyd at ddyddiad yr etholiad llywodraeth leol nesaf, pa un bynnag fyddai'r byrraf. Oherwydd y gohiriwyd dyddiad yr etholiad nesaf tan 2017, anfonwyd cais at Lywodraeth Cymru i newid y rheoliadau i ganiatau i'r aelodau wasanaethu am y cyfan o dymor y Cyngor hwn.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Penodi Linda E. Byrne, Betws Garmon a Margaret E. Jones, Chwilog yn aelodau annibynnol ar y pwyllgor i wasanaethu am gyfnod o chwe blynedd.**

**(b) Penodi'r Cynghorwyr Charles W. Jones, Eryl Jones-Williams a Michael Sol Owen ar y pwyllgor i wasanaethu am dymor y Cyngor os bydd y rheoliadau'n caniatau hynny.**

**(c) Ailbenodi David Clay ar y pwyllgor, i wasanaethu am dymor y Cyngor os bydd y rheoliadau'n caniatau hynny.**

## 9. PENODIADAU I'R PWYLLGOR ARCHWILIO

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro ar benodi aelod lleyg ar y Pwyllgor Archwilio.

Nododd yr hysbysebwyd yn y wasg am aelod lleyg ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych gyda'r dyddiad cau ar 20 Mehefin 2012. Oherwydd yr amserlen dynn, nid yw'n bosibl i'r Grŵp Busnes ystyried y ceisiadau a chyflwyno argymhelliad i'r Cyngor hwn ac ni ellir disgwyl hyd gyfarfod nesaf o'r Cyngor oherwydd bod angen i'r Pwyllgor Archwilio gyfarfod i dderbyn y datganiadau ariannol terfynol ac adroddiad yr archwiliwr arnynt. Nid yw'n gyfansoddiadol posibl i'r pwyllgor gyfarfod oni bai bod aelod lleyg wedi ei benodi iddo. Dan yr amgylchiadau, argymhellodd ei hawdurdodi hi, mewn ymgynghoriad ag arweinyddion y grwpiau gwleidyddol a'r Pennaeth Cyllid i wneud y penodiad ffurfiol o aelod lleyg i wasanaethu ar y pwyllgor. Rhydd hyn gyfle i'r Grŵp Busnes roddi ystyriaeth lawn a theilwng i'r ceisiadau gan gynnwys, os yn briodol, cynnal cyfweliadau cyn i'r penodiad gael ei gadarnhau.

**PENDERFYNWYD awdurdodi'r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad ag arweinyddion y grwpiau gwleidyddol a'r Pennaeth Cyllid, i wneud y penodiad ffurfiol o aelod lleyg i wasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio.**

## 10. DIWYGIADAU I'R CYFANSODDIAD

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro ar ddiwygiadau i'r cyfansoddiad.

Adroddwyd i'r Cyngor ar 17 Mai 2012 fabwysiadu'r cyfansoddiad newydd a oedd yn sefydlu Pwyllgor Iaith gyda 15 aelod o'r Cyngor ar sail cydbwysedd gwleidyddol ond nid oedd yn cynnwys cylch gorchwyl ar gyfer y pwyllgor. Yn dilyn trafodaethau gydag aelodau a swyddogion perthnasol, argymhellir cylch gorchwyl i'r pwyllgor fel a nodir yn Atodiad 1 o'r adroddiad.

Dan y rheoliadau yn ymwneud â chyflogi swyddogion, mae penodiadau i swyddi pennaeth adran neu gyfarwyddwr i'w gwneud gan bwyllgor, penodiad Prif Weithredwr i'w wneud gan y Cyngor llawn a phenodiad i bob swydd arall i'w wneud gan swyddog. Gan y bydd swydd Pennaeth Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dod yn wag yn yr wythnosau nesaf, gofynnodd i'r Cyngor sefydlu Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion, fydd yn cynnwys 15 aelod o'r Cyngor ar sail cydbwysedd gwleidyddol a gyda'r cylch gorchwyl a argymhellir yn Atodiad 2 o'r adroddiad. Oherwydd y brys i benodi i'r swydd dan sylw, gofynnodd i'r Cyngor ddirprwyo i'r pwyllgor, yr hawl i ystyried yr holl opsiynau ar gyfer llenwi'r swydd gan gynnwys, e.e. ailstrwythuro a dod i benderfyniad ar y dull mwyaf priodol ac yna gweithredu arno.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Mabwysiadu'r cylch gorchwyl yn Atodiad 1 o'r adroddiad ar gyfer y Pwyllgor Iaith.**

**(b) Sefydlu Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion gyda'r cylch gorchwyl a nodir yn Atodiad 2 o'r adroddiad ac yn cynnwys 15 aelod o'r Cyngor ar sail cydbwysedd gwleidyddol.**

**(c) Awdurdodi'r Swyddog Monitro i wneud y diwygiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad i roddi effaith i'r penderfyniadau.**

**(ch) Dirprwyo i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion ar gyfer swydd Pennaeth Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, yr hawl i ystyried, dod i benderfyniad a gweithredu ar y dull mwyaf priodol o lenwi'r swydd.**

## 11. PWYLLGORAU ARDAL

a) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer.

Eglurodd y cafwyd trafodaeth cychwynnol parthed dyfodol y pwyllgorau ardal ochr yn ochr â thrafodaeth ar sefydlu fforymau ardal fel rhan o'r gwaith grymuso cymunedau, gyda'r bwriad o rymuso'r aelod lleol, gwella'r ymgysylltiad â'r cymunedau, cael gwell canlyniadau i'r ardal a gwneud gwell defnydd o adnoddau aelodau a swyddogion. Wrth sefydlu'r Pwyllgor Cynllunio Canolog, bu gostyngiad yn nifer yr eitemau gerbron y pwyllgorau ardal ac erbyn hyn, golygai'r newid i drefn Cabinet bod nifer o faterion a gyflwynwyd yn flaenorol i'r pwyllgorau ardal, erbyn hyn yn gyfrifoldeb i'r Cabinet. 'Roedd angen i'r Cyngor ddod i benderfyniad os yw am sefydlu pwyllgorau ardal yn y gyfundrefn newydd neu beidio, ac os eu sefydlu, pa gylch gorchwyl i'w roddi iddynt, o ystyried bod rhai materion bellach yn dod yn gyfrifoldeb i'r Cabinet.

Tynnodd sylw at yr ystyriaethau canlynol sy'n briodol i'r Cyngor roddi sylw iddynt wrth drafod y mater sef –

a) Y drafodaeth ar y fforymau ardal.
b) Pwrpas a diben pwyllgorau ardal
c) Defnydd effeithiol o adnoddau
ch) Y newid i drefn cabinet
d) Trosglwyddo gwybodaeth

Nododd y gwelwyd o'r materion a drafodwyd yn y pwyllgorau ardal tros y ddwy flynedd ddiwethaf bod 58% yn adroddiadau er gwybodaeth yn unig h.y. adroddiadau blynyddol, rhaglenni gwaith a chynlluniau, cofnodion is-bwyllgorau a.y. tra 'roedd 41% o'r materion gerbron yn rhai oedd angen penderfyniad. 'Roedd y rhain yn rhannu i 29% a oedd bellach yn faterion i'r Cabinet a 12% yn faterion sydd naill ai yn mynd i'r Cyngor Llawn neu i'r Pwyllgor Cynllunio am benderfyniad. Dengys felly mai prif ffocws y pwyllgorau hyn tros y ddwy flynedd ddiwethaf oedd derbyn gwybodaeth. Er iddynt dderbyn nifer o faterion i'w trafod a'u penderfynu, golygai'r newid i drefniadau Cabinet na fydd ganddynt o hyn ymlaen rôl allweddol ym mhroses penderfynu'r Cyngor.

Nododd ymhellach bod bwriad gan y Cabinet i sefydlu cymorthfeydd lle gallai aelodau mainc gefn drafod materion sydd o bryder iddynt o fewn eu wardiau a holi'n gyffredinol am y gwasanaethau. Yn ogystal, pan sefydlir y porth gwybodaeth, bydd modd trefnu bod adroddiadau blynyddol gwasanaethau yn cael eu rhoddi arno at ddefnydd pob aelod a gellir hefyd ystyried anfon rhestr o ddigwyddiadau lleol i aelodau lleol.

Parthed y ffordd ymlaen, gan bod nifer o'r cynigion e.e. fforymau ardal, cymorthfeydd a'r porth gwybodaeth heb eu datblygu'n llawn, 'roedd o'r farn y dylid sefydlu gweithgor trawsbleidiol gyda chynrychiolaeth o bob ardal, i ddatblygu'r syniadau a chyflwyno cynigion pendant i'r Cyngor ym mis Hydref. Yn ogystal, argymhellodd sefydlu pwyllgorau ardal yn y dair ardal, heb hawliau gweithredu, ac ar sail tros dro, gyda'r mater i'w ystyried eto yng Nghyngor mis Hydref.

b) Gwahoddwyd aelodau i gyflwyno sylwadau.

i) Nododd aelod bod y pwyllgorau ardal yn bwysig iawn yn enwedig o safbwynt gweithrediadau lleol. Mae'r pwyllgorau hyn wedi bod yn weithredol bellach ers 15 mlynedd ac wedi bod yn effeithiol iawn. 'Roedd o'r farn y byddai'n llyffetheirio gwaith y pwyllgorau hyn i dynnu bob grym oddiwrthynt. Nododd hefyd y byddai'r pwyllgorau ardal yn fodd i'r aelodau mainc gefn gael cyfle i leisio barn ar faterion lleol ac y dylai'r gweithgor a sefydlir i ystyried cynigion pendant ystyried hefyd sut i roddi mwy o rym i'r pwyllgorau hyn. 'Roedd o'r farn bod sefydlu'r pwyllgorau ardal ar gyfer y dair ardal am gyfnod penodol tan Gyngor mis Hydref 2012 yn rhy fyr ac y dylid addasu'r argymhelliad yn yr adroddiad sef i ymestyn y cyfnod am chwe mis a chyflwyno adroddiad i Gyngor mis Chwefror 2013.

Nododd yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer nad oedd ganddo wrthwynebiad i ymestyn y cyfnod am chwe mis.

ii) 'Roedd aelod arall hefyd yn cytuno y dylid cadw'r pwyllgorau ardal ac na ddylid eu newid i Fforymau Ardal.

iii) Nododd aelod bod pwrpas i'r pwyllorau ardal yn y gorffennol ond 'roedd o'r farn nad oedd gwerth iddynt mwyach oherwydd bod y mwyafrif o'r adroddiadau a gyflwynwyd iddynt erbyn hyn yn adroddiadau blynyddol y gwahanol wasanaethau a'u bod er gwybodaeth yn unig. Fodd bynnag, 'roedd o blaid sefydlu fforymau ardal yn eu lle gan y byddai'n ddull mwy effeithiol o drafod materion lleol.

iv) Cynigiodd aelod welliant sef y dylid dileu'r geiriau "heb hawliau gweithredu" o argymhelliad (b) o'r adroddiad.

Mewn ymateb, hysbysodd y Swyddog Monitro pan sefydlir pwyllgor, gallai'r Cyngor ddirprwyo hawliau penderfynu penodol iddo. Yn achos y pwyllgorau ardal, 'roedd yn amheus pa hawliau y gellir eu dirprwyo iddynt gan bod y mwyafrif o'r hawliau gan y Cabinet. Os y sefydlir pwyllgorau ardal, mae'n bosibl iddynt gyfarfod ond ni fydd ganddynt hawliau i benderfynu unrhyw fater penodol wedi eu dirprwyo iddynt gan y Cyngor.

Nododd bod gan bob pwyllgor faes gorchwyl ond nid oes maes amlwg i bwyllgorau ardal. Nid yw'n bosibl i bwyllgorau ardal gael hawliau i wneud penderfyniadau sy'n fater erbyn hyn i'r Cabinet.

Nododd yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer nad oedd ganddo wrthwynebiad i ddileu'r geiriau hyn yng ngoleuni eglurhad y Swyddog Monitro.

Pasiwyd y gwelliant.

v) Holodd aelod os yw'r pwyllgorau ardal i barhau i ethol aelodau ar gyrff allanol.

Mewn ymateb, hysbysodd y Swyddog Monitro yr arferai'r pwyllgorau ardal ethol aelodau ar gyrff allanol ond erbyn hyn mae'n fater i'r Cabinet.

**PENDERFYNWYD**
**a) Sefydlu gweithgor trawsbleidiol gyda chynrychiolaeth o bob ardal i ddod â chynigion pendant gerbron am drefn fyddai'n cyfarfod â gofynion aelodau gan ystyried hefyd sut i roddi mwy o rym i'r pwyllgorau ardal.**
**b) Sefydlu pwyllgorau ardal ar gyfer pob un o ardaloedd Arfon, Dwyfor a Meirionnydd am gyfnod penodol o chwe mis.**
**c) Trafod y mater ymhellach yng Nghyngor mis Chwefror 2013.**

## 12. ATEBOLRWYDD TÂL O FEWN LLYWODRAETH LEOL YNG NGHYMRU

a) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Arweinydd y Cyngor.

Eglurodd bod gofynion statudol newydd ar bob Cyngor i gymeradwyo datganiadau polisi tâl yn flynyddol. Cyn 2009, nid oedd gan y Cyngor hwn bolisi tâl ar gyfer uwch swyddogion. Yn 2009, manteisiodd y Cyngor i ailstrwythuro'r uwch swyddogion, gan arbed £1m y flwyddyn, er mwyn cymryd y camau cyntaf tuag at sefydlu polisi tâl ar gyfer uwch swyddogion. Rhoddodd fanylion am y datganiad polisi tâl sy'n adlewyrchu'r penderfyniad a wnaed yn 2009. Penderfynodd y Cyngor hefyd yn 2009 y dylid ymgymryd ag adolygiadau tâl achlysurol er mwyn sicrhau bod y polisi tâl ar gyfer uwch reolwyr yn parhau'n gyfredol.

Nododd bod gan y Cyngor ddyletswydd statudol i fabwysiadu polisi tâl penodol ar gyfer y flwyddyn hon a rhoddodd fanylion am y ddau opsiwn sef y gallai'r Cyngor –
a) Fabwysiadu'r polisi tâl cyfredol. Wrth wneud hynny, dylid bod yn ymwybodol na olygai hynny na fyddai'r tâl uwch swyddogion yn newid.
b) Adolygu cynaladwyedd y polisi tâl presennol yn wyneb y farchnad gyflogaeth gyfredol a chyflwr yr economi a thacluso unrhyw beth sydd angen sylw yn y polisi presennol.

Os y dewisir opsiwn (b) uchod, awgrymodd y gellid dirprwyo'r dasg i grŵp llai o aelodau i wneud y gwaith ymchwil manwl ac adrodd yn ôl i'r Cyngor Llawn gydag unrhyw argymhellion am newid.

b) Gwahoddwyd aelodau i gyflwyno sylwadau.

i) Cynigiodd aelod welliant sef y dylid mabwysiadu opsiwn (b) uchod yn unig.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Arweinydd i'r Cyngor eisoes yn 2009 fabwysiadu'r polisi tâl ac os y penderfynir peidio ei fabwysiadu heddiw, yna bydd angen ystyried polisi tâl newydd.

Hysbysodd y Prif Weithredwr os y penderfynir peidio â mabwysiadu'r polisi tâl presennol yna byddai'n ofynnol i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion ei ystyried ar gyfer eleni gan bod rheidrwydd i gael polisi o'r fath yn weithredol yn ystod y flwyddyn.

Syrthiodd y gwelliant.

**PENDERFYNWYD**
**a) Mabwysiadu'r datganiad polisi tâl cyfredol ar gyfer y flwyddyn hon.**
**b) Bod y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i adolygu cynaliadwyedd y polisi tâl i'r dyfodol yn ei gyfanrwydd a chyflwyno adroddiad i'r Cyngor ar unrhyw argymhellion a chanfyddiadau.**

**13. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

(a) Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ar berfformiad ac effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn 2011/12 ac yn amlinellu'r materion y cytunwyd fel y rhai pwysicaf i roddi sylw iddynt yn ystod y flwyddyn i ddod.

(b) Cydnabu bod y flwyddyn wedi bod yn llwyddiannus ond yn heriol ar rai adegau. Cyfeiriodd at farwolaeth y diweddar Gynghorydd Dai Rees Jones y llynedd a'i arweiniad a'i gefnogaeth diflino i'r gwasanaeth yn ystod ei gyfnod fel Arweinydd Portffolio. Nododd y derbyniwyd gwybodaeth gan yr archwilwyr bod ganddynt hyder yn rhaglen waith yr adran a bod y gweithdrefnau yn ddiogel.

(c) O ran gwella perfformiad, cafwyd gwelliant sylweddol yn y cyrhaeddiad wrth ystyried dangosyddion perfformiad ym maes plant ac oedolion. Darparwyd gwasanaethau o fewn dyraniad ariannol y Cyngor a llwyddwyd i weithredu ar y rhaglenni arbedion o fewn cynlluniau'r Cyngor. Nododd y gwelwyd bod 75% o ddangosyddion cenedlaethol ym maes gofal plant wedi gwella neu aros yn sefydlog ac o'r 25% a lithrwyd, 'roedd chwe dangosydd yn parhau i berfformio'n gymharol neu'n well na chyfartaledd Cymru. 'Roedd y perfformiad ym maes oedolion hefyd i'w groesawu.

(ch) Manylodd ar -
- Gyllidebau tai a gwasanaethau cymdeithasol
- Gwariant Cymharol y Pen Gwynedd a Chymru

- Arbedion hyd at 2016

(d) Cyfeiriodd y Pennaeth bod llwyth achosion mesul Gweithiwr Cymdeithasol maes plant wedi cynyddu a bod nifer y plant a phobl ifanc a gyfeiriwyd at Wasanaethau Plant a Theuluoedd yn 2011/12 yn 2,064. Yn ystod 2011/12 bu i'r Gwasanaeth Oedolion ymdrin â dros 9,000 o ymholiadau ac fe arweiniodd y rhain at dros 4,500 o gyfeiriadau.

Mewn perthynas â proffil oedran Gwynedd ymysg pobl hŷn a phlant, rhoddodd fanylion fel a ganlyn –

- Y rhagamcanir cynnydd o 41% yn y boblogaeth oed 65+ erbyn 2033.
- Y rhagamcanir cynnydd o 87% yn y nifer oed 85+ erbyn 2030.
- Y rhagwelir cynnydd o 35% yn y nifer sy'n dioddef o dementia yng Ngwynedd rhwng nawr a 2021.
- Y rhagamcanir lleihad o 4.2% yn nifer y plant a phobl ifanc, 0-25 oed erbyn 2033 ond cynnydd o ran nifer y plant mewn gofal – 176 diwedd 2010 ond mae'r nifer bellach tros 200.

(dd) Diolchodd yr Aelod Cabinet Gofal i'r Pennaeth am yr adroddiad ac i'r holl swyddogion o fewn y gwasanaeth oedd ynghlwm â'r adroddiad.

Cyfeiriwyd at y ffaith mai hwn oedd cyfarfod olaf o'r Cyngor i'r Pennaeth Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol gan iddi dderbyn swydd gyda Chyngor Sir Ynys Môn. Diolchwyd iddi am ei gwasanaeth i'r Cyngor tros y blynyddoedd gan ddymuno'n dda iddi yn ei swydd newydd.

(e) Codwyd rhai cwestiynau ar yr adroddiad ac ymatebodd y swyddogion yn briodol iddynt.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 14. ASESIAD AR ANGHENION LLETYA A GOFAL POBL HŶN YN NALGYLCH PORTHMADOG

(a) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan yr Aelod Cabinet Gofal.

Tynnodd sylw at benderfyniad y Cyngor ar 15 Rhagfyr 2011 parthed dyfodol cartref preswyl Hafod y Gest, Porthmadog *i "wrthod yr argymhellion presennol a mynd yn ôl i drafod yn dryloyw a thrwyadl er mwyn sicrhau darparu'n addas ar gyfer gofynion a dyheadau'r gymuned, a dod ag adroddiad llawn yn ôl i'r Cyngor mewn chwe mis."*

Mewn perthynas â'r ymgynghoriad blaenorol a gymerodd le rhwng Mawrth a Gorffennaf 2011, 'roedd yn amlwg bod gwersi i'w dysgu parthed trefniadau'r ymgynghoriad ei hun a bod amrywiaeth barn am anghenion lletya a gofal pobl hŷn yn nalgylch Porthmadog. Ymgymerwyd â gwaith penodol i gasglu barn trigolion a chyfeillion Hafod y Gest, cynghorwyr, staff a swyddogion yr Adrannau Darparu a Hamdden a Gwasanaethau Cymdeithasol ar drefniadau'r ymgynghoriad. Penodwyd hwylusydd annibynnol i gynnal y sesiynau gyda budd-ddeiliaid Hafod y

Gest a chynghorwyr. 'Roedd yr adroddiad a dderbyniwyd yn nodi nifer o faterion gan gynnwys gwendidau yn y trefniadau ymgysylltu, cyfathrebu a gwrando effeithiol yn ogystal â diffyg adnabod opsiynau eraill. Cynigiwyd y canlynol fel gwersi i'w dysgu –

a) Cynllunio'r broses o'r dechrau yn llawn ac yn gynhwysol gan sicrhau cyfle i bawb gymryd rhan.
b) Ymchwilio digonol i anghenion a dyheadau trigolion yr ardal.
c) Adnabod opsiynau clir
ch) Sicrhau trefniadau prosiect penodol.

Parthed anghenion yr ardal, y cynnig a wnaed fel rhan o'r ymgynghoriad oedd adeiladu datblygiad newydd o tua 40 tŷ gofal ychwanegol. 'Roedd hyn yn gyson gyda gweledigaeth strategol y Cyngor a'r penderfyniadau a wnaed o ganlyniad i'r Adolygiad Strategol Preswyl a Nyrsio y dylid lleihau'r nifer o welyau preswyl traddodiadol, cynyddu nifer y gwelyau dementia a chynyddu'r nifer o dai gofal ychwanegol.

'Roedd yr ymateb a fynegwyd i'r ymgynghoriad ar ddyfodol Hafod y Gest yn anghytuno â'r bwriad i leihau'r nifer o welyau preswyl a mynegwyd barn y dylid darparu uned fechan breswyl fel rhan o'r datblygiad tai gofal ychwanegol. Wrth ystyried sut i symud hyn yn ei flaen, rhoddwyd sylw penodol i'r ddau agwedd yma, gan ymdrechu i ddysgu o'r gwersi a adnabuwyd a chynllunio gweithredu'n unol â'r sylwadau a wnaed. 'Roedd angen darlun llawer mwy cyflawn o anghenion a dyheadau'r ardal o safbwynt llety a chefnogaeth gofal ac awgrymodd gynnal y trafodaethau hynny yn yr ardal i sefydlu anghenion a dyheadau'r trigolion hŷn i'r dyfodol. I'r pwrpas hwn, ystyrir talgylch Porthmadog i fod yn ymestyn o Llanystumdwy, Garndolbenmaen, Beddgelert, Llanfrothen i Penrhyndeudraeth.

Yn dilyn cynnal trafodaethau lleol parthed asesu'r anghenion llety (tai) a gofal, bydd canlyniadau'r asesiad cychwynnol yn bwydo i fewn i ddewisiadau i'w hystyried wrth drafod yn ffurfiol ddyfodol Hafod y Gest. Byddai hyn yn llawer mwy penodol i fudd-ddeiliaid y cartref ac i'w gwblhau tros gyfnod llawer byrrach na'r hyn a wnaed yn flaenorol. Cam cyntaf yn y rhaglen waith fydd cynnal cyfarfodydd gydag aelodau lleol y dalgylch er derbyn mewnbwn i'r ddogfen drafod a hefyd cynllunio gweddill y rhaglen waith yn fwy manwl.

(b) Gwahoddwyd yr aelodau i gyflwyno sylwadau.

(i) 'Roedd aelod yn croesawu'r adroddiad ond datganodd anfodlonrwydd yr ymgynghorwyd unwaith yn rhagor â phreswylwyr Hafod y Gest heb gysylltu â'r teuluoedd. Parthed y cyfarfod gydag aelodau lleol ar 25 Mehefin 2012, nododd na fyddai'n bosibl iddo fod yn bresennol oherwydd ymrwymiad pwysig arall.

Mewn ymateb, cydnabu Dafydd Lewis y Cyfarwyddwr Corfforaethol yr ymryfusedd a ddigwyddodd parthed cysylltu â'r teuluoedd. Nododd yr anfonwyd copi o'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor heddiw i'r teuluoedd ac nid oedd yn ymwybodol o unrhyw gŵyn ymysg y

teuluoedd. Cyfeiriodd at y cyfarfod a gynhelir gydag aelodau lleol ar 25 Mehefin 2012 pryd y cadarnhawyd y byddai'r mwyafrif o'r aelodau yn gallu bod yn bresennol.

(ii) Cyfeiriodd aelod at yr angen i ailsefydlu'r gofal ysbaid yng Nghartref Hafod y Gest tros gyfnod yr ymgynghoriad.

Mewn ymateb, hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod y ddarpariaeth hon ar gael yn y cartref ers Ionawr 2012.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**15. RHYBUDD O GYNNIG**

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 13, derbyniwyd y rhybudd o gynnig brys canlynol gan y Cynghorydd Stephen Churchman –

*"Er mwyn cydnabod y ffaith bod Ynni Niwclear yn cael effaith uniongyrchol ar Wynedd, mae Cyngor Gwynedd yn ymrwymo'i hun i adnewyddu ei aelodaeth o Awdurdodau Lleol Di-niwclear sy'n ceisio hyrwyddo dulliau amgen yn hytrach na'r defnydd parhaus o ynni niwclear gan gynnwys dulliau eraill o fuddsoddi er mwyn creu cyfleoedd cyflogaeth realistig fydd wirioneddol ar gael i bobl leol yn y rhan hon o Gymru.*

*Mae aelodaeth o'r Awdurdodau Lleol Di-niwclear yn cynnig buddsoddiad gwerth am arian gwirioneddol yn nyfodol Gwynedd, Cymru a Phrydain ac er lles pawb. Dros nifer o flynyddoedd, mae'r aelodaeth wedi rhoddi mynediad i Wynedd at Weinidogion a Phwyllgorau ym mhob haen o Lywodraeth yn y DU fyddai ddim ar gael fel arall. Yn ogystal, mae'r aelodaeth wedi rhoddi amrywiaeth helaeth o brofiad a lefel o arbenigedd nad yw ar gael i awdurdodau lleol nad ydynt yn aelodau.*

*Gyda'r cwestiwn niwclear mor amlwg yn y rhan hon o Gymru, mae ymaelodi'n hanfodol er mwyn i Aelodau Gwynedd allu gwneud penderfyniadau deallus pan fydd y penderfyniadau hynny'n effeithio'n uniongyrchol ar ein cymunedau."*

**BARNWYD bod y cynnig wedi ei gyfeirio i gyfarfod nesaf y Cabinet.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 p.m. a daeth i ben am 3.45p.m.

____________________

**CADEIRYDD**